Dal ati i Ddysgu – gwybodaeth am y system Profi, Olrhain, Diogelu.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

DIOGELU CYMRU KEEP WALES SAFE

Mae gan bawb rôl i'w chwarae i gadw ein hysgol yn saff a helpu i atal COVID-19 rhag lledaenu.

Bydd angen i'ch plentyn hunanynysu os yw'n dangos unrhyw symptomau Covid-19, yn cael canlyniad positif i brawf neu'n dod i gysylltiad agos â rhywun sydd wedi profi'n bositif.

Mae hunanynysu yn golygu aros gartref. Ni ddylai eich plentyn adael y tŷ, mynd i'r ysgol, cymysgu â phlant eraill nac oedolion o'r tu allan i'w aelwyd. Drwy sicrhau bod eich plentyn yn hunanynysu, hyd yn oed os nad oes ganddo symptomau, rydych yn helpu i gyfyngu ar ledaeniad y coronafeirws ac i ddiogelu eraill.

SENARIO	CAMAU I'W CYMRYD	PRYD I DDYCHWELYD I'R YSGOL
Mae gan fy mhlentyn symptomau COVID-19: PESWCH CYSON NEWYDD- pesychu llawer am fwy nag awr, neu 3 phwl o besychu neu fwy mewn 24awr. TYMHEREDD UCHEL - mae eu brest neu eu cefn yn teimlo'n boeth i gyffwrdd. COLLI'R GALLU I AROGLEUO NEU FLASU, NEU NEWID YN Y GALLU HWNNW - ni allant arogli na blasu unrhywbeth, neu mae eu synnwyr arogli neu flas yn wahanol i'r arfer. *Os yw trwyn eich plentyn yn rhedeg neu os oes ganddo symptomau annwyd eraill a dim un o'r symptomau uchod, nid oes angen prawf COVID-19, a gall fynd i'r ysgol pan fydd yn ddigon da i wneud hynny.*	**RHAID I'CH PLENTYN AROS GARTREF.** • Rhowch wybod i'r ysgol ar unwaith. • Rhaid i'r aelwyd gyfan hunanynysu. • Trefnwch brawf drwy ffonio 119 neu fynd i llyw.cymru/coronafeirws. • Rhowch wybod i'r ysgol am ganlyniad y prawf ar unwaith.	Os yw canlyniad y prawf yn negyddol, gall eich plentyn ddychwelyd i'r ysgol ac nid oes angen i'r aelwyd barhau i hunanynysu. Os yw canlyniad y prawf yn bositif, dilynwch y cyngor isod.
Mae fy mhlentyn wedi cael canlyniad prawf positif ar gyfer Covid-19.	**RHAID I'CH PLENTYN AROS GARTREF.** • Rhaid i'ch plentyn hunanynysu am 10 diwrnod. • Rhowch wybod i'r ysgol ar unwaith. • Rhaid i weddill yr aelwyd hunanynysu am 14 diwrnod o ddiwrnod y symptomau cyntaf.	Ar ôl o leiaf 10 diwrnod o hunanynysu, os yw eich plentyn yn teimlo'n ddigon da ac os nad oes ganddo dymheredd uchel bellach. Gall symptomau eraill bara am sawl wythnos, felly os oes ganddo beswch o hyd, neu os nad yw'n dal i allu arogli neu flasu'n iawn, mae'n iawn iddo ddychwelyd i'r ysgol os yw'n teimlo'n ddigon da.
Roedd gan fy mhlentyn symptomau COVID-19, fe gafodd brawf a chael canlyniad negyddol.	• Nid oes angen i'ch plentyn na'r aelwyd barhau i hunanynysu. • Rhowch wybod i'r ysgol a chytunwch ar ddyddiad dychwelyd i'r ysgol.	Pan fydd y plentyn yn teimlo'n ddigon da.
Mae fy mhlentyn yn sâl â symptomau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID-19.	• Dilynwch weithdrefn bolisi arferol yr ysgol o ran absenoldeb.	Pan fydd y plentyn yn teimlo'n ddigon da.
Mae gan rywun yn fy aelwyd symptomau COVID-19. TYMHEREDD UCHEL – mae ei frest neu ei gefn yn teimlo'n boeth i'w gyffwrdd. PESWCH CYSON NEWYDD – peswch llawer am fwy nag awr, neu 3 pwl neu fwy o beswch o fewn 24 awr. AROGL/BLAS – methu arogli neu flasu unrhyw beth, neu fod pethau'n arogli neu'n blasu'n wahanol i'r arfer.	**RHAID I'CH PLENTYN AROS GARTREF.** • Rhowch wybod i'r ysgol ar unwaith. • Rhaid i'ch plentyn a gweddill yr aelwyd hunanynysu am 14 diwrnod. • Rhaid i'r person sy'n dangos symptomau drefnu prawf drwy ffonio 119 neu fynd i llyw.cymru/coronafeirws**.** • Rhowch wybod i'r ysgol am ganlyniad y prawf ar unwaith.	Os yw canlyniad yr aelod o'r aelwyd yn negyddol, gall eich plentyn ddychwelyd i'r ysgol ac nid oes angen i'r aelwyd barhau i hunanynysu. Gweler isod beth i'w wneud os yw'r canlyniad yn bositif.

SENARIO	CAMAU I'W CYMRYD	PRYD I DDYCHWELYD I'R YSGOL
Mae rhywun yn fy aelwyd wedi cael prawf positif ar gyfer COVID-19.	**RHAID I'CH PLENTYN AROS GARTREF.** • Rhaid i'r achos positif hunanynysu am 10 diwrnod. • Rhowch wybod i'r ysgol am ganlyniad positif y prawf ar unwaith. • Rhaid i'ch plentyn a gweddill yr aelwyd hunanynysu am 14 diwrnod. • Os bydd eich plentyn yn datblygu symptomau yn ystod y cyfnod hunanynysu, trefnwch brawf.	Ar ôl i'r plentyn ddod i ddiwedd ei 14 diwrnod o hunanynysu heb unrhyw symptomau COVID-19, ac ar ôl cytuno gyda'r ysgol ar ddyddiad dychwelyd.
Mae system Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru wedi rhoi gwybod imi bod fy mhlentyn wedi dod i gysylltiad agos â rhywun sydd wedi cael canlyniad prawf positif ar gyfer COVID-19*.	**RHAID I'CH PLENTYN AROS GARTREF** • Rhaid i'ch plentyn hunanynysu am 14 diwrnod a dilyn cyngor system Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru. • Nid oes angen i'r aelwyd hunanynysu. • Os bydd eich plentyn yn datblygu symptomau yn ystod y cyfnod hunanynysu, trefnwch brawf. • Os nad yw'r achos positif yn gysylltiedig â lleoliad yr ysgol h.y. os yw perthynas neu ffrind y tu allan i'r ysgol wedi profi'n bositif, rhowch wybod i'r ysgol ar unwaith y gofynnwyd i'ch plentyn hunanynysu. • Cefnogwch eich plentyn drwy'r addysg o bell a ddarperir gan yr ysgol.	Ar ôl i'r plentyn ddod i ddiwedd ei 14 diwrnod o hunanynysu heb unrhyw symptomau COVID-19, ac ar ôl cytuno gyda'r ysgol ar ddyddiad dychwelyd.
Rydyn ni/Mae fy mhlentyn wedi teithio ac yn gorfod hunanynysu am gyfnod cwarantin*.	**RHAID I'CH PLENTYN AROS GARTREF.** • Os ydych yn dychwelyd o ran o'r byd sy'n golygu bod angen ichi fynd i gwarantin, cysylltwch â'r ysgol i gytuno ar y dyddiad cynharaf pan gaiff eich plentyn ddychwelyd ar ddiwedd y cyfnod hunanynysu o 14 diwrnod o leiaf. • Os bydd eich plentyn yn datblygu symptomau yn ystod y cyfnod hunanynysu, trefnwch brawf.	Ar ôl i'r cyfnod cwarantin o 14 diwrnod ddod i ben.

* Os yw system profi, olrhain, diogelu GIG Cymru neu'r ysgol wedi dweud wrth eich plentyn am hunanynysu am ei fod wedi dod i gysylltiad ag achos positif, neu am ei fod wedi dychwelyd o wlad dramor nad yw wedi'i heithrio, dim ond os oes ganddo symptomau COVID-19 y dylid trefnu prawf ar ei gyfer. Rhaid iddo barhau i hunanynysu am 14 diwrnod, hyd yn oed os caiff ganlyniad negyddol. Nid oes angen darparu tystiolaeth o ganlyniad negyddol cyn cael dychwelyd i'r ysgol.

Cadw Cymru'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu.
Keep Wales Safe. Keep Wales Learning.

Hawlfraint y Goron 2020, Llywodraeth Cymru WG41365